OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 76

## Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) 2023

**Diwygiadau i reoliad 3**

**3.** Yn rheoliad 3 (personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo sy'n gymwys i gael dyraniad o lety tai)—

(a) hepgorer yr "ac" yn union ar ôl paragraff (k),

(b) ar ddiwedd paragraff (l), yn lle "." rhodder "; ac", ac

(c) ar ôl paragraff (l) mewnosoder—

"(m) Dosbarth M – person sydd â chaniatâd dros dro i aros yn y Deyrnas Unedig a roddwyd yn unol ag Atodiad i'r Rheolau Mewnfudo: Caniatâd Dros Dro i Aros i Ddioddefwyr y Fasnach mewn Pobl neu Gaethwasiaeth(**1**)."

(**1**) Gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 23 Mai 1994 (HC 395), fel y'i diwygiwyd. Cyflwynwyd Atodiad Caniatâd Dros Dro i Aros i Ddioddefwyr y Fasnach mewn Pobl neu Gaethwasiaeth gan y Datganiad o Newidiadau i'r Rheolau Mewnfudo: HC 719, a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 18 Hydref 2022 ac sy'n cael effaith ar 30 Ionawr 2023.